# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 26 Ionawr 2012** |
| Amser: | **09:15 - 12:10** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_26_01_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman (Cadeirydd)**<br>**Angela Burns**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Keith Davies**<br>**Suzy Davies**<br>**Julie Morgan**<br>**Lynne Neagle**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Simon Thomas** |
| Tystion: | **Leighton Andrews, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**<br>**Jeff Cuthbert, Y Dirprwy Weinidog Sgiliau**<br>**Chris Tweedale, Director, Children, Young People and Schools Effectiveness Group, Llywodraeth Cymru**<br>**John Pugsley, Head of 14-19 Learning Pathways**<br>**Gwenda Thomas, Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Martin Swain, Lead for Children and Families Partnership Working, Llywodraeth Cymru**<br>**Jo Trott, Head of Flying Start** |
| Staff y Pwyllgor: | **Claire Morris (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Anne Thomas (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2. Gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: Sesiwn Dystiolaeth

2.1 Croesawodd y Cadeirydd y tystion. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion ynghylch gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ddarparu enghreifftiau o arfer gorau lle mae cydweithio'n well wedi creu arbedion ariannol.
- Cytunodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ddarparu nodyn ynghylch y cynllun gliniadur peilot.
- Cytunodd y Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau gyda thystiolaeth ynghylch ysgolion sy'n addysgu ieithoedd tramor modern y tu allan i oriau craidd yr ysgol.

## 3. Dechrau'n Deg

3.1 Croesawodd y Cadeirydd y tystion. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion ynghylch y rhaglen Dechrau'n Deg.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch teuluoedd sy'n cael Cymhorthdal Incwm sy'n rhan o'r rhaglen Dechrau'n Deg.
- Cytunodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymchwilio i'r honiadau bod byrddau iechyd lleol yn rhewi'r broses o recriwtio ymwelwyr iechyd generig o ganlyniad i'r gyllideb ar gyfer ymwelwyr iechyd ychwanegol sydd ar gael yn y rhaglen Dechrau'n Deg.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn ac ar gyfer y cyfarfod ar 1 Chwefror 2012:

4.1 Cytunodd yr Aelodau ar y cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac ar gyfer y cyfarfod ar 1 Chwefror.

## 5. Iechyd y Geg mewn Plant yng Nghymru

5.1 Yn amodol ar wneud rhai mân newidiadau, cytunodd yr Aelodau ar yr adroddiad drafft ar Iechyd y Geg mewn Plant.

## 6. Yr ymchwiliad i fabwysiadau - Penodi cynhghorydd arbenigol

6.1 Cytunodd yr Aelodau ar benodi cynghorydd arbenigol er mwyn cynorthwyo â'r ymchwiliad i fabwysiadu.

## 7. Papurau i'w nodi

7.1 Gwybodaeth gan Addysg Uwch Cymru

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.